

Cwrdd â'r athro 5C
Meet the teacher 5C
2026-2027



Proffil Un Dudalen

Y ffordd gorau i fy nghefnogi i ...
The best way to support me ...

Cadwch mewn cysylltiad â'r ysgol os oes unrhyw bryderon
Keep in touch with the school if you have any concerns.
Dangos diddordeb yn nysgu eich plentyn
Show an interest in your child's learning.
Annog annibyniaeth, ymdrech a gwydnwch
Encourage independence, effort and resilience.
Bod yn amyneddgar – ambell waith mae'n cymryd amser i
neud pethau'n iawn!
Be patient. Sometimes it takes time to get things right!

Y pethau gorau amdanaf i ...

The best things about me ...

Rwy'n berson cyfeillgar a gofalgar / I'm kind and caring.

Rwy'n ffyddlon iawn i fy ffrindiau / I'm faithful to my friends.

Rwy'n berson teg sydd yn gwrando a cheisio helpu.
I am a fair and approachable person who will always listen and do my best to help.

Fy enw yw / *My name is*
Mrs Helen Davies

Beth sy'n bwysig ar fy nghyfer i?
What's important for me?

Creu perthynas cadarnhaol gyda phob plentyn yn y dosbarth.
Build positive relationships with every child.
Annog plant i herio eu hunain a dysgu o'u camgymeriadau.
Encouraging children to challenge themselves and learn from mistakes
Creu profiadau dysgu difyr sy'n ysbrydoli chwilfrydedd, creadigrwydd ac annibyniaeth.
Creating engaging learning experiences that inspire curiosity, creativity and independence.



Beth sy'n bwysig i mi?
What's important to me?

Teulu

Joio penwythnosau yn y garafan

Darlhen

Siopa

Dyma fi!

This is me!



Dyma fi!
This is me!



Thema ~ Theme

Tymor yr Hydref - Perthyn; Dyma fi!

Sut mae deall pwy ydw i a ble rwy'n perthyn yn fy helpu i ddeall fy hun, eraill a'r byd o'm cwmpas?

Oes arbenigedd ganddych chi fel rhieni y gallwch chi ei gynnig i'n helpu o fewn y maes?

Autumn Term Theme - Belonging; This is me!

How does understanding who I am and where I belong help me understand myself, others and the world around me?

Do you as parents have any expertise in this area that you can offer to help us within this theme?



Perthyn / Belonging

5C - Tymor yr Hydref / Autumn Term

Dyma fi ... / This is me ...

Trosolwg Tymor yr Hydref

Y tymor yma, bydd y disgyblion yn archwilio amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n cefnogi eu datblygiad personol, eu lles a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

Bydd y plant yn dysgu am dderbyn, cynhwysiant a pharch tuag at eraill. Trwy drafodaethau a gweithgareddau, byddant yn datblygu gwerthfawrogiad o amrywiaeth ac yn dysgu sut i fod yn aelodau caredig, cyfrifol a gofalgar o'u cymuned.

Yn gwyddoniaeth, bydd y disgyblion yn ymchwilio i bethau byw, y corff dynol a'r ffordd y mae organebau'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. Byddant hefyd yn ystyried sut y gall dewisiadau bob dydd effeithio ar yr amgylchedd a bywyd gwyllt, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwydd a dinasyddiaeth gyfrifol.

Trwy gerddoriaeth a'r celfyddydau mynegiannol, bydd y plant yn archwilio diwyllianau, traddodiadau a safbwyntiau gwahanol. Byddant yn dysgu am elfennau megis rhythm, tempo, deinameg ac arddull, wrth ddatblygu hyder, creadigrwydd a dealltwriaeth o sut mae'r celfyddydau'n adlewyrchu pobl, lleoedd a hanes.

Bydd y disgyblion hefyd yn dysgu am ofal personol a hylenid. Bydd hyn yn eu helpu i ddeall sut i gadw'n iach, datblygu annibyniaeth a rheoli'r newidiadau corfforol sy'n digwydd wrth iddynt dyfu. Bydd y sgiliau bywyd pwysig hyn yn eu cefnogi i ofalu amdanynt eu hunain yn ddiogel ac yn hyderus.

Yn ogystal, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu a meddwl yn feiriadol. Bydd y plant yn ymchwilio i bynciau, trefnu gwybodaeth a chyflwyno eu canfyddiadau'n glir. Trwy drafodaethau a dadleuon moesol, byddant yn dysgu gwrando ar safbwyntiau gwahanol, mynegi eu barn yn barchus a defnyddio tystiolaeth a rhesymau i gefnogi eu syniadau.

Erbyn diwedd y tymor, ein nod yw i'r disgyblion fod yn gyfathrebwyr hyderus, yn ddysgwyr myfyrion ac yn ddinasyddion parchus a chyfrifol sy'n barod i gyfrannu'n gadarnhaol at y byd o'u cwmpas.

Cwestiwn Hanfodol

Sut mae deall pw ydych chi i a ble rwy'n perthyn yn fy helpu i ddeall fy hun, eraill a'r byd o'n cwmpas?



Autumn Term Overview

This term, pupils will explore a range of learning experiences that support their personal development, wellbeing and understanding of the world around them.

Children will learn about acceptance, inclusion and respect for others. Through discussions and activities, they will develop an appreciation of diversity and learn how to be kind, responsible and considerate members of their community.

In science, pupils will investigate living things, the human body and how organisms depend on one another for survival. They will also consider how everyday choices can affect the environment and wildlife, helping them develop an awareness of sustainability and responsible citizenship.

Through music and the expressive arts, children will explore different cultures, traditions and perspectives. They will learn about elements such as rhythm, tempo, dynamics and style, while developing confidence, creativity and an understanding of how the arts reflect people, places and history.

Pupils will also learn about personal care and hygiene. This will help them understand how to stay healthy, become more independent and manage the physical changes that occur as they grow. These important life skills will support them in caring for themselves safely and confidently.

Alongside these areas of learning, we will focus on developing communication and critical thinking skills. Children will research topics, organise information and present their findings clearly. Through discussions and moral debates, they will learn to listen carefully to different viewpoints, express their own opinions respectfully and use evidence and reasoning to support their ideas. By the end of the term, we aim for pupils to be confident communicators, thoughtful learners and respectful, responsible citizens who are ready to contribute positively to the world around them.

Llyfrau Darllen / Reading

Books

The Journey by Francesca Sanna.
The Boy, the Mole, the Fox, the Horse and the Storm by Charlie Mackesy.
Y Bwbach Bach Unig gan Graham Howells



Gwaith Cartref

Fel rhan o'm gwaith cartref y tymor yma, hoffem i'r plant greu poster, cyflwyniad neu goeden deulu sy'n dangos eu teulu a'r bobl sy'n bwysig iddynt, ac yn esbonio pam mae'r bobl hyn yn rhan o bwy ydyn nhw.

As part of this half term homework, we would like the children to create a poster, presentation or family tree showing their family and the people who are important to them and explain why these people are part of who they are.



Rhifedd / Numeracy

Y tymor nesaf, bydd y disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o rifau hyd at 100,000, degolion, onglau a siapiau, gan ddefnyddio eu sgiliau mewn ystod o weithgareddau datrys problemau a chyd-destunau bywyd go iawn i feithrin hyder a rhesymu mathemategol.

Next term, pupils will develop their understanding of numbers up to 100,000, decimals, angles and shape, applying their skills through a range of problem-solving activities and real-life contexts to build confidence and mathematical reasoning.



Ymarfer Corff / P.E

Bydd gwersi ymarfer corff ar dydd Mercher.
PE lessons every Wednesday.

Gofynnwn i ddysgyblion ddod i'r ysgol yn eu gwisgoedd ymarfer corff ar y diwrnodau hyn, sef siorts neu 'joggers' tywyll (heb logo), crys-t yr ysgol (caniateir hefyd rhai gwyn neu glas plaen) ac esgidiau ymarfer corff.

Pupils are asked to come to school in their PE uniforms on these days: dark shorts or joggers (without logo), school t-shirts (plain white or blue t-shirts are also allowed) and trainers.

Amser Antur/ Adventure Time

Bydd y disgyblion yn defnyddio'r goedwig leol fel ystafell ddothar awyr agored i archwilio bywyd gwyllt, datblygu sgiliau gwaith tîm, a dysgu am bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a'u lles eu hunain.

Pupils will use the local woodland as an outdoor classroom to explore wildlife, develop teamwork, and learn about the importance of caring for the environment and their own wellbeing.



Llais y Plentyn / Pupil Voice

Mae cael syniadau y plant yn helpu'n fawr i wneud y dysgu yn ystyrlon ac yn helpu'r plant ymgysylltu gyda'r dysgu. Gofynnwn i bawb ddychwelyd erbyn Dydd Llun 14.9.26.

Having the children's ideas help make the learning meaningful and helps the children to engage with their learning. All pupils to return by Monday 14.9.26.



Enw _____

Llyfrau / Books
Apiau/Apps
Gwefannau / Websites

Beth ydych chi'n gwybod yn barod?
What do you know already?

Llais y plentyn - Pupil Voice

Pa bethau hoffai eich plentyn ddysgu yn yr ysgol y tymor hwn?
What would your child like to learn about at school this term?

Cyd-destun dysgu Dosbarth 4C y tymor hwn yw:
Our context of learning in Dosbarth 4C this term is:

Dyma fi / This is me

*Sut mae deall pwy ydw i a ble rwy'n perthyn yn fy helpu
i ddeall fy hun, eraill a'r byd o'n cwmpas?*
*How does understanding who I am and where I belong
help me understand myself, others and the world
around me?*

Pa wybodaeth hoffech chi ei ddarganfod?
Pa gwestiynau sydd gennych?
*What information would you like to
discover? What questions do you have?*

Gallwch chi argymhell trip neu ymwelydd?
Can you suggest a trip or visitor?

Syniadau gwaith cartref
Homework ideas

Unrhyw syniadau pellach?
Any further ideas?



Amserlen / Timetable

Dyma drosolwg o amserlen wythnosol y dosbarth.

Bydd newidiadau achlysurol.

Here is an overview of our weekly timetable.

There will be occasional changes.

Amser	Llun	Mawrth	Mercher (CPA & UD)	Iau	Gwener
9:00 - 9:10	Cofrestru a chinio	Cofrestru a chinio	Cofrestru a chinio	Cofrestru a chinio	Cofrestru a chinio
9:10 - 10:40	Gwasanaeth (9:15 - 10:00) Cylch Croeso (10:00 - 10:40)	Sesiwn Sglein & laith	Canu BI3 - BI 6 (9:10 - 9:40) Taith ddysgu	Sesiwn Sglein & laith	Sillafu & laith
10:40 - 11:00	Egwyl	Egwyl	Egwyl	Egwyl	Egwyl
11:00 - 12:00	Mathemateg	Mathemateg	Mathemateg	Mathemateg	Taith ddysgu
12:00 - 13:00	Cinio	Cinio	Cinio	Cinio	Cinio
13:00 - 14:15	laith	Taith ddysgu	Addysg Gorfforol	Taith ddysgu	WITGCh
14:15 - 14:30	Egwyl	Egwyl	Egwyl	Egwyl	Egwyl
14:30 - 15:30	Cylch ddarllen & Sesiwn Sglein	Cylch ddarllen	Cylch ddarllen & Sesiwn Sglein	Cylch ddarllen	Gwasanaeth gwobrwyo



Bwyta'n iach / *Healthy eating*

Mae plant sydd yn bwyta'n iach yn dysgu'n well, yn teimlo'n well ac yn tyfu'n gryfach. Gofynnwn bod:

- pob byrbryd yn iach (e.e. ffrwyth neu lysiau)
- bocs bwyd cinio yn iach
- pob plentyn yn dod a photel dŵr i'r ysgol - dim ond dŵr
- torri grawnwin yn hanner
- enw plentyn ar bob bocs.

Children who eat healthily learn better, feel better and grow stronger. We ask that:

- all snacks are healthy(e.g. fruit or vegetables)
- healthy food in all lunch boxes
- every child brings a water bottle to school -water only
- any grapes are cut in half
- all boxes are labelled with a name



Dulliau Adferol/ *Restorative Approaches*

Rydym yn defnyddio Dulliau Adferol yn gyson ar draws yr ysgol er mwyn helpu plant i ddeall eu hemosiynau a'u hymddygiad ac i drwsio perthnasau pan fod angen. Fel rhan o hwn rydym yn

- Dewis anghenion dosbarth
- Cylch Croeso bob bore Llun
- Cylch ffarwel ar bnawn Gwener
- Check-ins dyddiol i adnabod emosiynau

We use Restorative Methods consistently across the school to help children understand their emotions and behaviour and to repair relationships when needed. As part of this we:

- Choose class needs
- Welcome Circle every Monday morning
- Farewell circle on Friday afternoon to check-out
- Daily check-ins to identify emotions



Diogelwch ar y we

Online safety

Wrth i blant ddod yn fwy hyderus gyda thechnoleg, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r llwyfannau ar-lein y maent yn eu defnyddio gartref. Gall rhai apiau, gemau a safleoedd cyfryngau cymdeithasol gael effaith wirioneddol ar eu lles a'u hymddygiad yn yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi wirio'n rheolaidd beth mae eich plentyn yn ei ddefnyddio ar-lein, siarad â nhw am ddefnyddio'r we'n ddiogel ac yn gyfrifol, a gosod ffiniau priodol.

Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn helpu i gadw ein plant yn ddiogel ac yn hapus ar-lein ac yn yr ysgol.

As children grow more confident using technology, it's important to be mindful of the online platforms they are accessing at home. Some apps, games, and social media sites can have a real impact on their wellbeing and behaviour in school. We kindly ask parents and carers to regularly check what their child is using online, talk to them about safe and responsible use, and set appropriate boundaries.

Working together, we can help keep our children safe and happy both online and in school.

Darllen - Reading


- Bydd llyfrau yn cael eu danfon adref ar ddiwrnodau penodol i gydfynd ag amserlen darllen y disgyblion.
 - Gofynnwn yn garedig i chi ddychwelyd y llyfr ar yr un diwrnod yn wythnosol.
 - Bydd llyfrau darllen Cymraeg a Saesneg yn cael eu darllen bob yn ail.
 - Bydd athrawon yn nodi sylwadau am ddarllen eich plentyn yng nghofnod darllen ddigidol eich plentyn o fewn 'Google Classrooms'
 - Gofynnwn yn garedig i chi barhau i ddarllen yn rheolaidd gyda'ch plentyn adref ac i nodi sylwadau am ddarllen eich plentyn yn y cofnod darllen.
-
- *Reading books will be sent home on specific days according the pupils' in-class reading timetable.*
 - *Please return on a weekly basis on the correct day.*
 - *Welsh and English books will alternate each week.*
 - *Teachers will record comments about your child's reading in the pupil's online reading record (Google Classrooms).*
 - *We kindly ask that you to continue to read regularly with your child at home and continue to record comments about your child's reading in this reading record.*



Darllen - Reading

Cofnod darllen ddigidol - Online Reading Record:

Google Classrooms - Classwork - Darllen / Reading



The screenshot shows a Google Sheets spreadsheet titled 'Cofnodion darllen 4C'. The spreadsheet has a table with 5 columns: A (Date), B (Name of book), C (Teacher comments), D (Parents comments), and E (empty). The first row is the header row. The second row is the first data row. The third row is empty. The fourth row is empty.

	A	B	C	D	E
1	Dyddiad / Date	Enw llyfr / Name of book	Sylwadau athrawon / Teacher comments	Sylwadau rhieni / Parents comments	
2					
3					

Nid oes angen sylw na dyddiad ar gyfer pob darlleniad. Mae nodyn o'r tudalennau a ddarllenwyd yn ddigon. Ar gyfer pob llyfr gall sylwadau ymwneud â mwynhad, rhuglder - pa mor dda y maent wedi darllen, y defnydd o ffoneg i seinio geiriau anodd, sylwadau sy'n gysylltiedig â rhagfynegiadau, arsylwadau am osod y stori, cymeriadau, digwyddiadau (plot). Os yw amser yn broblem gall eich plentyn ddarllen gydag unrhyw un y mae'n ei adnabod, er enghraifft neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd hŷn. Gall plant hŷn ddarllen yn annibynnol - dylid cofnodi hyn hefyd yn y cofnod.

Not every read needs a comment or date. Just a note of the pages read is enough. For each book comments can be about enjoyment, fluency- how well they have read, use of phonics to sound out tricky words, comments linked to predictions, observations about the story- setting, characters, events (plot). If time is an issue your child can read with anyone known to them, for example grandparents, older siblings. Older children can read independently - this should also be logged in the record.



Darllen - Reading

Cefnogi darllen yn y cartref - Supporting reading at home:

Darllen Co.


<https://www.darllenco.wales/>

Mwynhewch ein adnodd darllen fwyaf diweddar 'DarllenCo.' drwy ddewis y ddolen isod.

Cofiwch ddefnyddio eich manylion Hwb er mwyn mewngofnodi a mwynhau'r dewis eang o lyfrau Cymraeg!

Enjoy our latest reading resource, 'DarllenCo.'

Remember to use your Hwb login details to sign in and enjoy the wide range of Welsh-language books available!



Bugs Online:


<https://www.activelearnprimary.co.uk/login?c=0>

Mwynhewch ein adnodd darllen fwyaf diweddar 'Bugs Online' drwy ddewis y ddolen isod.

Mewngofnodwch er mwyn mewngofnodi a mwynhau'r dewis eang o lyfrau Saesneg!

Enjoy our latest reading resource, 'Bug Club Online', by selecting the link below.

Log in to access and enjoy the wide range of English-language books available!



Llyfrau Darllen

Yn anffodus, mae nifer o lyfrau darllen yn cael eu colli am nad ydynt yn cael eu dychwelyd i'r ysgol. Mae hyn yn lleihau'r nifer o lyfrau darllen sydd ar gael i bawb ac yn gostus i'r ysgol. Byddwn yn gofyn am daliad cyfwerth â chost llyfrau nad sydd yn cael eu dychwelyd i'r ysgol. Os oes llyfrau darllen yr ysgol gennych adre, gofynnwn i chi eu dychwelyd i'r ysgol yn syth. Diolch yn fawr.

Reading Books

Unfortunately, many reading books are lost because they are not returned to school. This reduces the number of reading books available to all our children and is costly for the school. We will ask for a payment equivalent to the cost of any books that are not returned to school. We ask that any books that you currently have at home are returned to school immediately. Diolch yn fawr.



Sillafu ~ Spelling

- Rydym yn cynnal profion sillafu bob wythnos.
 - Bydd y rhestr geiriau yn cael ei rannu ar ddydd Gwener drwy 'Google Classrooms' ac ar bapur a'r asesiad y Dydd Gwener canlynol.
 - Gofynnwn i chi gefnogi eich plant i ddysgu'r geiriau adref.
 - Bydd geiriau Cymraeg a Saesneg bob yn ail wythnos.
-
- We have spelling tests every week.
 - The word list will be shared on Friday via Google Classrooms and on paper and the assessment the following Friday.
 - We ask that you support your children to learn the words at home.
 - Welsh and English words are sent every other week.



Rhifau Rhagorol ~ Big Maths

- Rydym yn defnyddio ‘Rhifau Rhagorol’ i hybu cynnydd rhifedd.
- Bydd pob plentyn yn cael taflen yn yr ysgol ar eu lefel nhw bob wythnos.
- Bydd copi o’r daflen yn dod adre er mwyn i chi allu cefnogi eich plentyn ar y lefel cywir a gweld eu cynnydd.
- Ni fydd y dasg yn cael ei amseru.

Diolch i’r GRhA am dalu am Big Maths!

- We use ‘Big Maths’ to promote numeracy progress.
- Each child will complete a sheet at their level each week at school.
- A copy of the sheet will be brought home so you can support your child at the right level and see their progress.
- Tasks are not timed.

Thank you to the PTA for funding Big Maths!



Gwaith cartref ~ Homework

Prosiectau Hanner Tymhorol

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod ar ddechrau pob hanner tymor ar ffurf prosiect sy'n gysylltiedig ag un Maes Dysgu a Phrofiad. Rydym yn annog rhieni a gofalmwr i gefnogi eu plentyn drwy gydol y prosiect drwy drafod syniadau, helpu gyda gwaith ymchwil, a dangos diddordeb yn eu dysgu.

Ar ddiwedd yr hanner tymor, bydd disgyblion yn dod â'u prosiect gorffenedig i'r ysgol i'w rannu gyda'u cyfoedion. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt ddathlu eu llwyddiannau, dysgu oddi wrth ei gilydd, a bod yn falch o'r ymdrech, y creadigrwydd a'r ymroddiad y maent wedi'u dangos wrth ddysgu gartref.

Half Termly Projects

Homework will be set at the beginning of each half term and will take the form of a project linked to one Area of Learning and Experience. We encourage parents and carers to support their child throughout the project by discussing ideas, helping with research, and showing an interest in their learning.

At the end of the half term, pupils will bring their completed project into school to share with their peers. This provides an opportunity for children to celebrate their achievements, learn from one another, and take pride in the effort, creativity and dedication they have shown while learning at home.



Gwaith cartref ~ Homework

Geiriau sillafu yn cael eu rhannu ar ddydd Gwener a'r sesiwn ailymweld yn cael ei gynnal ar y dydd Gwener ganlynol.

Spelling words are shared on Friday and the revision sessions will be held on the following Friday.

Darllen - Parhau i ddarllen yn gyson gyda'ch plentyn gan lenwi'r cofnod darllen ddigidol. Sicrhewch fod llyfr darllen eich plenty yn yr ysgol ar y diwrnod sydd wedi ei nodi ar Google Classrooms.

Reading - Please continue to read regularly with your child, writing any relevant comments in the online reading record. Ensure that your child brings their reading book on the day stated on Google Classrooms.

[Cofnodion Darllen Dydd Llun/Monday's Read...](#)



Google Classroom

Addysg Gorfforol / *Physical Education*

Un waith yr wythnos: Dydd Mercher
Once a week: Wednesday

- Pawb i gymryd rhan yn gwisgo cit addas - siorts du/trowsus du a chrys-t glas golau plaen neu grys-t gyda logo'r ysgol gyda siwmpwr neu gardigan yr ysgol.
- **Popeth wedi labelu!!!**
- *All children to participate wearing appropriate kit - black shorts/trousers and a plain light blue t-shirt or light blue shirt with the schools logo accompanied with the school jumper or cardigan.*
- ***Please label everything!!!***

Darparwch lythyr i esbonio os yw eich plentyn methu cymryd rhan yn y sesiwn os gwelwch yn dda.

Please provide a letter if your child is unable to participate in the session.



Instagram

Rydym yn edrych ymlaen at barhau i ddefnyddio cyfrif Instagram yr ysgol i rannu'r dysgu a'r profiadau gwyh sy'n digwydd ledled yr ysgol. Mae'r llwyfan hwn yn ein galluogi i ddathlu cyflawniadau'r plant ac i roi cipolwg i deuluoedd ar fywyd bob dydd yn yr ysgol. Dim ond pan fyddwn wedi derbyn caniatâd gan rieni neu warcheidwaid y byddwn yn postio lluniau neu fideos o blant.

We're excited to continue using our school's Instagram account to share the wonderful learning and experiences taking place across the school. This platform allows us to celebrate the children's achievements and give families a glimpse into daily life at school. We will only post photos or videos of children when we have received permission from parents or guardians to do so.

Nodyn ychwanegol:

- Bydd pob plentyn yn rhan o'r pwyllgorau ysgol sydd yn cyfarfod pob mis.
- Mae ein clybiau allgwircwlaidd yn dechrau yn ystod w/c 14 Medi
- Bydd Blwyddyn 5 yn ymweld â Maes y Fron am ddwy noson yn ystod tymor y Gwanwyn. Mi fydd y gwybodaeth yn cael ei rannu gyda chi yn ystod y tymor.

Additional note:

- *All children will be part of the pupil voice committees which meet monthly.*
- *Extra-curricular clubs begin on the week commencing the 14th of September.*
- *Year 5 will be visiting Abercraf for two nights during the Spring term. Information will be shared during this term.*



Cyfathrebu gyda Staff

Mae sicrhau bod ein bod yn cydweithio'n agos â chi er gallu mwyn cefnogi ein disgyblion yn bwysig iawn i ni. Pe bai materion penodol yn ymwneud â'ch plentyn sydd angen i chi eu trafod gyda staff, gofynnwn i chi wneud hynny wrth gasglu plant ar ddiwedd dydd **neu** trwy ffonio / ebostio'r **swyddfa**, yn hytrach na staff yn uniongyrchol, er mwyn i neges gael ei drosglwyddo at y staff. Byddai hyn o gymorth mawr i ni.

Ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk

Communicating with staff

Ensuring that we work closely with you to be able to support our pupils is very important to us. Should there be specific issues relating to your child that you need to discuss with staff, we ask that you do so when picking up children at the end of day **or** by calling / emailing the **office** (rather than staff directly) so that a message can be passed to staff. This would be a great help to us.

ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk



Diolch am eich cefnogaeth barhaus.
Thank you for your continued support.



Ysbrydoli Cefnogi Llwyddo